national slate museum
amgueddfa lechi cymru

# cyfleoedd i ysgolion
## 2011-2012

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# dod â dysgu'n fyw

Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis yn dod â hanes y diwydiant llechi yn fyw i filoedd o blant bob blwyddyn – dewch i gael gweld beth sydd gennym i'w gynnig.

Gwobr Sandford am ragoriaeth mewn addysg dreftadaeth

Cartref yr amgueddfa yw'r Gilfach Ddu, gweithdai Fictoraidd gwreiddiol. Dyma ble cai'r holl offer a'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer chwarel enfawr Dinorwig ei wneud.

Erbyn hyn, mae'r hen beiriannau'n segur, ond mae digon o fwrlwm yma o hyd. Dewch â'ch disgyblion draw i

- gwrdd â'n chwarelwyr crefftus yn hollti a naddu'r llechi a chael cyfle i'w holi
- crwydro tai Fron Haul, lle cânt flas ar fywyd cartref y chwarelwyr ym 1861, 1901 a 1969
- rhyfeddu at yr olwyn ddŵr - y fwyaf sy'n dal i weithio ar dir mawr Prydain
- gwylio'r ffilm Dwyn y Mynydd sy'n rhan hanfodol o'ch ymweliad i ddeall pwysigrwydd y diwydiant llechi i Gymru ac i'r byd.

Mae rhywbeth at ddant pawb yn Amgueddfa Lechi Cymru, beth bynnag yw eich pwnc neu'ch thema.

**Cynigir mynediad AM DDIM diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cymru**

# teithiau, sgyrsiau a gweithgareddau

## Y Lôn Goed

Taith dywys drwy lygaid ein Saer. Cyfle i ddysgu mwy am y Cwt Sils, y Craen Coed, yr Olwyn Ddŵr, y Ffowndri a rhai o'n patrymau pren rhyfeddol.
**Hyd:** 30-45 munud

## Fron Haul

Amrywiaeth o sgyrsiau a gweithgareddau wedi eu teilwra ar gyfer eich anghenion. Teithiwch drwy amser o 1861 i 1969, gwisgwch ddillad cyfnod, clywch am y Streic, neu dewch i weld offer golchi dillad Oes Fictoria.

## Taith dywys Chwarel Vivian

Cyfle i fynd am dro tu hwnt i'r Amgueddfa at droed Chwarel Vivian, i glywed mwy am hanes y chwarelwyr ar y graig ac yn y gwaliau, ac i weld rhai o'r dyfeisiadau Fictoraidd blaengar fel y blondin a'r inclen.
**Hyd**: 1 awr

## Codi stêm

Dewch i gyfarfod Una, ein locomotif stêm a darganfod mwy am y ddyfais Fictoraidd ryfeddol hon.
**Hyd:** 30 munud (Bob dydd Mercher, mis Mawrth i fis Hydref)

# rhaglen newidiol

## Gweithdai arbennig

### Traddodiadau'r Nadolig (CA1 a 2)

5-9 Rhagfyr 2011

Sesiwn straeon Nadoligaidd o flaen y tân gyda Mair Tomos Ifans, cyfle i greu addurn tymhorol ac i weld tai'r chwarelwyr wedi'u haddurno ar gyfer y Nadolig.

**Hyd: 2 awr**

### Diwrnod Golchi (CA1 a 2)

6-10 Chwefror 2012

Cyfle i'r plant gamu'n ôl i'r gorffennol a chwrdd â Margiad yr olchwraig sy'n brysur wrth ei gwaith. Cyfle gwych i'r disgyblion chwarae rôl a dysgu am fywyd pob dydd merched yn oes Fictoria.

**Hyd: 2 awr**

### Trenau Bach a Mawr (CA1 a 2)

27-29 Chwefror 2012

Oherwydd poblogrwydd ein Sioe Trenau Bach flynyddol, dyma gynnig cyfle euraid i ysgolion fanteisio ar elfennau o'r sioe honno. Caiff y disgyblion dro ar ein locomotif bach, sgwrs am stêm, camu i gab Una a dysgu am greu cefndir i drenau model.

**Hyd: 2 awr**

### Tu ôl i'r llenni yn yr Amgueddfa (CA2 a 3)

12-14 Mawrth 2012

Cyfres o weithgareddau ymarferol fydd yn helpu disgyblion i ddeall gwaith amrywiol yr Amgueddfa.

**Hyd: 2 awr**

## Arlein

### Saethu'r Graig

Gweithgaredd rhyngweithiol wedi'i lunio ar y cyd â GCaD Cymru

**http://www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/2796/**

## Bagloriaeth Cymru

Dewch â'ch criw Bac draw i'r Amgueddfa – lleoliad arbennig o addas i astudio Cymru, Ewrop a'r Byd.

## Cyfleoedd i athrawon

Gwyliwch am fwy o fanylion am ddiwrnodau datblygiad proffesiynol, a drefnir ar y cyd â Gyrfa Cymru.

**Diwrnod Ymgyfarwyddo Athrawon:** 24 Ionawr 2012

# archebu eich lle

Gofynnir bod pob ysgol yn trefnu eu hymweliad ymlaen llaw. Ffoniwch **(01286) 873717** i drefnu dyddiad ac amser a byddwn yn anfon ffurflen atoch i'w llenwi i gadarnhau eich ymweliad.

Cofiwch fod croeso i grwpiau ddefnyddio siop yr Amgueddfa. Gallwch hefyd gysylltu â'r caffi ar **(01286) 873715** i archebu pecynnau bwyd ar gyfer eich grŵp, am bris o £3.49 y pen.

Am fwy o wybodaeth neu i drafod eich ymweliad cysylltwch â'r Swyddog Addysg ar **(01286) 873706.**

Am wybodaeth iechyd a diogelwch i'ch helpu i gwblhau eich asesiad risg ewch i'n gwefan: **www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/lechi.**

## Ble ydyn ni?

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY

Mae Amgueddfa Lechi Cymru wedi'i lleoli ym Mharc Gwledig Padarn, Llanberis ar yr A4086. O'r A55 trowch am Lanberis wrth Gyffordd 11 ger Bangor i'r A5 ac wedyn i'r B4366. Dilynwch yr arwyddion i Lanberis a Pharc Gwledig Padarn.

## Am fersiwn print bras ffoniwch (029) 2057 3149.